SL(5)810 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Cafodd y nodyn hwn ei baratoi er mwyn rhoi gwybodaeth i Aelodau o'r Senedd mewn perthynas â busnes y Cyfarfod Llawn ar 26 Mai 2021.

Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol, a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio diffygion sy'n parhau i fodoli yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE. Mae Rheoliadau 2011 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â masnachu anifeiliaid a chynhyrchion perthynol, gan gynnwys sefydlu fframwaith rheoleiddio ar gyfer masnachu mewn anifeiliaid byw a deunydd genetig, ac ar gyfer mewnforio anifeiliaid byw, deunydd genetig a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2011 er mwyn newid y dyddiad pan fydd gofynion rhaghysbysu trosiannol ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid yn gymwys o 1 Ebrill 2021 i 31 Gorffennaf 2021.

Gweithdrefnau

Gwneud Cadarnhaol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd.

Rhaid i'r Senedd gymeradwyo'r Rheoliadau o fewn 28 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gwnaed er mwyn iddynt barhau i gael effaith.

Pwyntiau i'w nodi

Ni nodir unrhyw bwyntiau i'w nodi mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol
8 Ebrill 2021